Datganiad ar brosesu teg/preifatrwydd

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

Y Ffordd Rydym yn Defnyddio Data Personol

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r ffordd y mae Gwasanaeth Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn cael gafael ar wybodaeth am bobl (eu data personol), yn ei gadw, ei ddefnyddio a'i ddatgelu, y camau rydym yn eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddiogelu, ac mae'n disgrifio hefyd hawliau unigolion mewn perthynas â'r data personol sydd gan CBSP amdanynt.

Mae'r broses o ddefnyddio a datgelu data personol yn cael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Felly mae yna rwymedigaeth ar CBSP i sicrhau ei fod yn ymdrin â phob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae CBSP yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd cryn ofal i sicrhau yr ymdrinnir â data personol yn briodol er mwyn gwarchod a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Dan y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i CBSP fod â sail gyfreithiol dros brosesu data personol yn ddibynnol ar y gwasanaeth a ddarperir.

1. **Pam ydym yn ymdrin â data personol?**

Bydd Gwasanaeth Budd-daliadau CBSP yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth bersonol amdanoch chi ac aelodau eraill eich aelwyd er mwyn prosesu eich hawliad am Fudd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, prydau ysgol am ddim, Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (grant gwisg ysgol), Grant Cyfleusterau i'r Anabl (fel y bo'n berthnasol i chi), taliadau cymorth hunanynysu a chynllun cymorth tanwydd gaeaf.

. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth am aelodau o'r aelwyd, rydym yn tybio eich bod yn gwneud hynny gyda'u gwybodaeth a'u caniatâd llawn.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i:

- gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Deddf Addysg 1996
- gweinyddu asesiadau ar gyfer budd-daliadau a grantiau
- dilysu'r wybodaeth a ddarparwyd i gadarnhau cymhwysedd i gael cymorth
- rhannu gwybodaeth â'ch landlord pan fo caniatâd wedi'i roi (gellir diddymu caniatâd unrhyw bryd)
- cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain
- cynnal dadansoddiadau a gwaith ymchwil a allai helpu Llywodraeth Cymru i bennu'r ddarpariaeth o gymorth ychwanegol ac anghenion cyllid ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'r ffordd orau o gefnogi awdurdodau lleol a'u preswylwyr.
- cynnal arolygon, er enghraifft, arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid
- mentrau twyll lleol
- helpu i atal troseddu ac erlyn troseddwyr
- cymorth ariannol mewnol a swyddogaethau corfforaethol
- cynnal ymarferion paru data dan fentrau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â thwyll

2. **Pa fath/dosbarth o ddata personol rydym yn ymdrin ag ef?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir dan adran 1 uchod, gall CBSP gael gafael ar ddata personol, ei ddefnyddio, a'i ddatgelu gan gynnwys y canlynol:

Manylion personol – enw, cyfeiriad, dyddiad geni ac oedran, rhyw, rhif Yswiriant Gwladol, tystiolaeth o hunaniaeth, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost

- Manylion yr aelwyd – yn cynnwys data personol a strwythur teulu'r unigolion sy'n byw yn yr aelwyd sydd wedi'u cynnwys yn y cais am gymorth
- Statws mewnfudo
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Tenantiaeth a gwybodaeth am eiddo
- Manylion landlord
- Manylion dyled sy'n gysylltiedig â thenantiaeth ac unrhyw ddyled arall
- Cyfeiriadau blaenorol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Cofnodion myfyrwyr a disgyblion
- Gwybodaeth am ffeiliau achos
- Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- Gwybodaeth am anabledd
- Manylion/diagnosis meddygol
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Iaith o ddewis
- Manylion cerbyd
- Delweddau gweledol, ymddangosiad personol ac ymddygiad
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau.

Bydd CBSP ond yn defnyddio data personol priodol ac angenrheidiol er mwyn cyflawni diben neu ddibenion penodol. Gall data personol gynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

3. **Gwybodaeth am bwy gaiff ei phrosesu**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir dan adran 1 uchod, gall CBSP gael gafael ar ddata personol, ei ddefnyddio a'i ddatgelu gan gynnwys y canlynol:

- Cwsmeriaid
- Staff, unigolion sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaeth
- Hawlwyr
- Pobl sy'n cwyno neu'n ymholi neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Myfyrwyr a disgyblion
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Landlordiaid
- Pobl sy'n derbyn budd-daliadau
- Tystion
- Troseddwyr a throseddwyr dan amheuaeth
- Deiliad trwydded a thocynnau parcio
- Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

Bydd CBSP ond yn defnyddio'r data personol priodol ac angenrheidiol er mwyn cyflawni diben neu ddibenion penodol gan gynnwys prosesu eich hawl i:

- Budd-dal Tai
- Lwfans Tai Lleol
  Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
  Taliad Disgresiwn at Gostau Tai
- Prydau Ysgol am Ddim
- Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (grant gwisg ysgol)
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Taliadau cymorth hunanynysu
- Cynllun cymorth tanwydd gaeaf

Gallai data personol gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig hefyd e.e. delweddau teledu cylch cyfyng.

4. **O ble rydym yn cael data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir dan adran 1 uchod, gall CBSP gael gafael ar ddata personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn uniongyrchol gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am gymorth;
- Landlordiaid cyfredol, cyn-landlordiaid a darpar landlordiaid;
- Yr unigolion eu hunain;
- Perthnasau, gwarchodwyr neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn;
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- Awdurdodau trwyddedu;
- Cynrychiolwyr cyfreithiol;
- Awdurdodau erlyn;
- Cyfreithwyr Amddiffyn;
- Llysoedd;
- Carchardai;
- Tystion;
- Sefydliadau'r sector gwirfoddol;
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor;
- Archwilwyr;
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau'r llywodraeth ac adrannau;
- Gwasanaethau argyfwng;
- Cyflogwyr cyfredol, cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr yr unigolyn;
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal lles;
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant;
- Cymdeithion busnes a chynghorwyr proffesiynol eraill;
- Gweithwyr cyflogedig ac asiantau CBSP;
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau;
- Unigolion sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn;
- Sefydliadau a chynghorwyr ariannol;
- Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu;
- Llywodraeth Leol;
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol;
- Ombwdsman ac awdurdodau rheoleiddio;
- Y cyfryngau;
- Proseswyr data sy'n gweithio ar ran CBSP;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Hybiau Rhannu Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd;

- Gwybodaeth ar gael i bawb ar y rhyngrwyd;
- Camera i'r Corff y mae swyddogion yn eu gwisgo;
- Adrannau eraill yn y Cyngor;
- Sefydliadau dadansoddol, cynnal arolygon a gwaith ymchwil;
- Asiantaethau gwirio credyd, gan gynnwys TransUnion. Gallwch weld hysbysiad preifatrwydd TransUnions': https://www.transunion.co.uk/legal-information/bureauprivacy-notice

Gall CBSP gael gafael ar ddata personol o ffynonellau eraill hefyd fel ei systemau teledu cylch cyfyng ei hun, neu ohebiaeth.

5. **Sut ydym yn ymdrin â data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir dan adran 1, bydd CBSP yn ymdrin â data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym neu ar ein rhan o'r safon uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, ei fod yn ddigonol, yn gyfredol yn ôl y gofyn ac nad yw'n ormodol, a'i fod yn cael ei ddiogelu'n briodol, a'i adolygu, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan nad oes ei angen rhagor.

6. **Sut rydym yn sicrhau diogelwch data personol?**

Mae CBSP yn ystyried diogelwch yr holl ddata personol dan ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn sicrhau bod polisi, hyfforddiant, mesurau technegol a gweithdrefnol priodol ar waith, gan gynnwys monitro archwiliadau a gonestrwydd, er mwyn diogelu ein systemau gwybodaeth â llaw a'n systemau gwybodaeth electronig o ganlyniad i golli data neu gamddefnydd ohono, a byddwn ond yn caniatáu mynediad atynt pan fo rheswm dilys dros wneud hynny, ac yn unol â chanllawiau caeth o ran y defnydd a wneir o bosibl o unrhyw ddata personol sydd wedi'i gynnwys ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn sicrhau diogelwch cyfredol.

7. **I bwy rydym yn datgelu data personol?**

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion rydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Pan fo angen, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Mae'r hyn sy'n dilyn yn ddisgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallem fod angen rhannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu am un neu ragor o resymau gyda nhw:

- Cwsmeriaid
- Teulu, cymdeithion neu gynrychiolwyr yr unigolyn rydym yn prosesu data personol amdano
- Cyflogwyr cyfredol, cyn-gyflogwyr a darpar-gyflogwyr
- Landlordiaid cyfredol, cyn-landlordiaid a darpar landlordiaid
- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Addysgwyr
- Darparwyr nwyddau a gwasanaethau
- Sefydliadau ariannol
- Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Ombwdsman a gwasanaethau rheoleiddio
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd a thribiwnlysoedd
- Cyrff proffesiynol

- Sefydliadau dadansoddol, cynnal arolygon ac ymchwilio
- Asiantaethau gwirio credyd, gan gynnwys TransUnion. Gallwch weld hysbysiad preifatrwydd TransUnions yn: https://www.transunion.co.uk/legal-information/bureauprivacy-notice
  Yr Heddlu
  Cymdeithasau tai a landlordiaid
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Darparwyr cymorth
- Myfyrwyr a disgyblion yn cynnwys eu perthnasau, gwarchodwyr, gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Llysoedd, carchardai
- Tollau tramor a chartref
- Llywodraeth leol a chanolog
- Asiantaethau a chyrff rhyngwladol ar gyfer gorfodi'r gyfraith
- Asiantaethau partner, sefydliadau ac unigolion cymeradwy sy'n cydweithio â'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Darparwyr gwasanaethau
- Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd
- Cyflogwyr cyfredol, cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr
- Awdurdodau gorfodi ac erlyn y gyfraith
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr amddiffyn
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd
- Bargyfreithiwr
- Darparwyr Hyfforddiant
- Archwilwyr
- Gwasanaethau Eraill y Cyngor

8. Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'r wybodaeth hon?

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, caniateir i ni ddefnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol dim ond pan fo gennym reswm priodol a chyfreithiol dros wneud hynny. Mae'r sail gyfreithiol dros ganiatáu i ni ddefnyddio eich gwybodaeth yno er mwyn bodloni ein rhwymedigaeth gyfreithiol dan ddeddfwriaeth Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Phrydau Ysgol Am Ddim, ac i ymgymryd â'n dyletswyddau fel cyngor. O dro i dro, efallai y byddwn yn gofyn i chi am eich caniatâd penodol i ddefnyddio eich gwybodaeth.

9. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol y mae CBSP yn ymdrin ag ef?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'r data personol y mae'r Cyngor yn ei gadw. Mae gennych hawl i gael cadarnhad hefyd o ran a yw'r data amdanoch chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor. Pan fo hynny'n digwydd, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Dibenion prosesu a'r sail gyfreithiol dros wneud hynny
- Y categorïau data personol dan sylw
- Y bobl y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio

- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael a'i tharddiad.

  **Nodwch fod 'prosesu' yn golygu cyflawni gweithred neu gyfres o weithredoedd ar ddata personol fel casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, diddymu, cyfyngu neu adfer.*

Gall fod angen tystiolaeth o hunaniaeth ac unrhyw wybodaeth bellach angenrheidiol i ganfod y wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid anfon unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig at y Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch wneud cais i'r Cyngor gywiro data personol anghywir amdanoch chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, mae'n rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os ydych chi'n ei wneud yn ofynnol iddo wneud hynny.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig at y Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch wneud cais i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu ar y broses o'i drosglwyddo, yn amodol ar eithriadau.

Dylid anfon yr holl geisiadau at y Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac a yw wedi cael ei wrthod, a'r rhesymau dros wrthod.

Yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomatig.

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn destun penderfyniad pan fydd yn cael ei brosesu'n awtomatig ac yn creu effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi eich barn a chael eglurhad gan y Cyngor o'i benderfyniad a'i herio. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i'r holl benderfyniadau gan fod yna eithriadau, er enghraifft, awdurdodi yn ôl y gyfraith, cyflawni contract yr ydych yn rhan ohono.

10. **Am ba hyd y mae CBSP yn cadw data personol?**

Mae CBSP yn cadw data personol am y cyfnod sy'n angenrheidiol at y diben penodol neu at ddibenion sy'n cyd-fynd â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

11. **Cysylltu â Ni**

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynglŷn â'r ffordd y mae CBSP yn ymdrin â'u data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor isod:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Gwybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.llyw.du

Ffôn 01656 643565

Gallwch godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Heol Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/